Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Adroddiad i'r Cynulliad ddrafft

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad. Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi ardaloedd daearyddol y pwyllgorau ac yn datgan eu cylch gwaith.

1.2 Rhwng Gorffennaf 2000 a Gorffennaf 2001 cadeiriwyd y Pwyllgor gan Ann Jones. Yr aelodau eraill yw Alison Halford, Gareth Jones, John Marek. Tom Middlehurst, Alun Pugh, Rod Richards, Peter Rogers, Janet Ryder, Karen Sinclair, Dafydd Wigley ac Ieuan Wyn Jones. Cymerodd Eleanor Burnham le Christine Humphreys ym mis Mai 2001. Mae'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn aelod, ond nid yw'n mynychu'r cyfarfodydd oherwydd ei rôl fel Llywydd.

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith rhwng Gorffennaf 2000 a Gorffennaf 2001. Yn atodiad 1 ceir manylion dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd, y pynciau a drafodwyd a'r camau a gymerwyd yn sgîl y cyfarfod.

2. Cylch Gwaith a'r Dull o Weithio

2.1 Rôl y pwyllgorau rhanbarth, yn unol â'r diffiniad yn Rheol Sefydlog 10.2, yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, ynghylch effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny ac ynghylch gwaith cyrff cyhoeddus yno.

2.2 Mae'r pwyllgor yn rhoi pwys mawr ar annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y cyfarfodydd ac ar sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu cyfleu gan Weinidogion a Chadeiryddion pwyllgorau i'r Cynulliad. Ar ôl pob cyfarfod mae'r Cadeirydd yn crynhoi'r materion a drafodwyd mewn llythyr at y Gweinidog priodol, ac anfonir copi at gadeirydd y pwyllgor pwnc perthnasol. Ar ddechrau pob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiad ar y camau y cytunwyd arnynt ac ar unrhyw ymatebion a dderbyniwyd.

2.3 Mae'r pwyllgor yn trefnu cyfarfod ar thema benodol. Mantais hyn yw bod strwythur y cyfarfod yn fwy syml a'i fod yn denu cynulleidfa fwy penodol.

2.4 Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y pwyllgor ddau gyfraniad i ymgynghoriadau cyhoeddus. Roedd y cyfarfod cyntaf yn ystyried rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* a'r ail yn ystyried dogfen ymgynghorol *"Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru".*

2.5 Roedd nifer yr aelodau o'r cyhoedd a ddaeth i'r cyfarfodydd yn gyson uchel drwy gydol y

flwyddyn, gyda'r cyfartaledd dros 100. Daeth nifer arbennig o dda i'r cyfarfodydd yng Nghei Connah a Chaergybi.

2.6 Trefnwyd sesiynau briffio anffurfiol gyda Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ac eraill, yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol y pwyllgor. Ym mis Tachwedd 2000, cyfarfu'r aelodau â'r Fforwm i drafod datblygiad band llydan yn y rhanbarth a chysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de. Cafwyd cyfarfod briffio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd adeg y llifogydd hefyd. Ym mis Ebrill 2001 cyfarfu aelodau â'r Fforwm i drafod trydaneiddio'r rheilffyrdd, datblygiad y sector awyrofod a seilwaith TGCh.

2.7 Roedd y cyfarfodydd hyn yn ffordd werthfawr o gyfnewid safbwyntiau gyda'r Fforwm Economaidd ac o sicrhau bod aelodau wedi eu briffio ar faterion na chawsant eu trafod yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor.

2.8 Rhoddodd y pwyllgor wahoddiad sefydlog i'r Prif Weinidog fynychu'i gyfarfodydd gan mai ef sydd â chyfrifoldeb dros gydlynu polisi yng Ngogledd Cymru. Mynychodd y Prif Weinidog y cyfarfodydd ym Mhorthmadog, Caergybi a'r Rhyl a chynhaliodd sesiynau holi ac ateb gyda'r cyhoedd yn y tri chyfarfod hwnnw.

3. Y rhaglen at y dyfodol

3.1 Yng nghyfarfod y pwyllgor ar 6 Gorffennaf 2001, etholwyd Eleanor Burnham yn Gadeirydd newydd. Bydd y Cadeirydd newydd, mewn cydweithrediad â'r Aelodau, yn datblygu rhaglen waith a fydd yn sicrhau bod y pwyllgor yn parhau i fod yn gyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau lleol yn y rhanbarth.

Ann Jones **Gorffennaf 2001**
Cadeirydd

Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Cyfarfodydd Gorffennaf 2000 – Gorffennaf 2001

Dyddiad	Lleoliad	Pynciau a chamau a gymerwyd

14 Gorffennaf 2000	Neuadd y Dref, Dinbych	**Gostwng Troseddu** Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor ystyried yr adnoddau a glustnodir ar gyfer partneriaethau trosedd ac anhrefn; Llythyr at yr Ysgrifennydd Cyllid, a chopïau ohono at Gadeiryddion pwyllgorau pwnc ac Ysgrifenyddion y Cynulliad, yn gofyn am wybodaeth ynghylch yr holl ffynonellau ariannu ar gyfer materion trosedd ac anhrefn y gellid manteisio arnynt ar raddfa leol. Darparwyd manylion yn y cyfarfod canlynol a chawsant eu dosbarthu i bawb a oedd yn bresennol ac i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Darparwyd papur gan Chris Ruane AS ar "gytundeb ymddygiad derbyniol" Islington ac fe'i hanfonwyd at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i roi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgor Llysoedd Ynadon;
27 Hydref 2000	Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam	**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf** Llythyr at y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau yn amlinellu prif bwyntiau'r drafodaeth ar Roi Cymunedau'n Gyntaf; Llythyr at y Prif Weinidog ynghylch trydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru.

8 Rhagfyr 2000	Canolfan Gelfyddydau Dyffryn Madog, Porthmadog	**Gwella Iechyd a sesiwn holi ac ateb gyda'r Prif Weinidog** Sicrhaodd y Prif Weinidog y byddai swyddogion yn datrys y mater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd ynghylch cael gafael ar wybodaeth ar iechyd sydd ar gael yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Llythyr at Virgin Trains yn nodi anfodlonrwydd y Pwyllgor eu bod wedi diddymu'r gwasanaeth Intercity o Ogledd Cymru i Lundain. Cafwyd ateb yn dweud eu bod yn adfer y gwasanaeth.
26 Ionawr 2001	Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Connah	**Cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru** Llythyr at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn rhoi manylion yr ymatebion a gafwyd yn y cyfarfod.
11 Mai 2001	Canolfan Ucheldre, Caergybi	**Trafnidiaeth a sesiwn holi ac ateb gyda'r Prif Weinidog** Byddai Railtrack yn darparu gwybodaeth ar y gwaith sy'n cael ei wneud i wella mynediad i'r anabl ac ansawdd siwrneau. Bydd Railtrack yn rhoi gwybodaeth am y gorsafoedd yng Ngogledd Cymru sydd â mynediad i'r anabl. Y Prif Weinidog i godi'r mater ynghylch cyswllt rhwng yr A55 a phorthladd Caergybi gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

		Y Prif Weinidog i ofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon edrych ar y cyllid ar gyfer cynllun 'Sportsmatch'.
6 Gorffennaf 2001	Neuadd y Dref, Rhyl	**Tai a sesiwn holi ac ateb gyda'r Prif Weinidog.** Llythyr at y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau'n amlinellu prif bwyntiau'r drafodaeth ar dai.